# Asesu'r Risg o Ddylanwad o Dramor yng Nghanlyniadau Chwilio'r DU

Paratowyd ar gyfer Ofcom gan

Bret Schafer a Peter Benzoni

The Alliance for Securing Democracy at the German Marshall Fund of the United States

Medi 19, 2023

## Crynodeb Gweithredol

Fel y porth *de facto* i'r holl wybodaeth sydd ar gael ar-lein, mae gwasanaethau chwilio yn chwarae rhan hollbwysig yn yr ecosystem gwybodaeth fodern. Yn aml, dyma'r man cychwyn ar gyfer cwestiynau pobl am y byd o'u cwmpas; cwestiynau o bob lliw a llun. Felly, gall y canlyniadau a gynhyrchir gan algorithmau chwilio ddylanwadu ar bopeth, o ymddygiad defnyddwyr i ddewisiadau gwleidyddol a chymdeithasol pobl,[1] yn aml mewn ffyrdd sy'n ddiarwybod i ddefnyddwyr y systemau hynny.

O ystyried y pŵer sylweddol hwn, mae gwasanaethau chwilio hefyd yn dargedau i'r rheini sy'n ceisio camddefnyddio gwybodaeth i hyrwyddo agenda benodol sy'n gallu bod yn faleisus. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio i lywodraethau awtocratig tramor, neu ar eu rhan, sy'n gallu defnyddio canlyniadau chwilio i wyngalchu achosion o dorri hawliau dynol, ymosod ar wrthwynebwyr, neu ymyrryd â materion mewnol gwledydd eraill. Mae'r bygythiad yn fwy gyda gwladwriaethau sydd â digon o adnoddau ac sy'n darparu cyfryngau byd-eang a gefnogir gan y gwladwriaethau hynny, ffermydd trolio a ffynonellau gwybodaeth eraill sy'n gydnaws â'r wladwriaeth sy'n eu galluogi i ecsbloetio gwasanaethau chwilio drwy gynhyrchu cynnwys strategol, optimeiddio peiriannau chwilio neu gamddefnyddio'n fwriadol.

I werthuso'r risg bosibl hon, aethom ati i ddadansoddi data dros gyfnod o 30 diwrnod ar draws chwe chynnyrch chwilio ar bedwar gwasanaeth chwilio (Google Search, Google News, Microsoft Bing, Bing News, Yandex Search a Baidu Search) i asesu amlygrwydd gwefannau tramor sy'n gysylltiedig â gwladwriaeth[2], neu'r rheini sy'n atgynhyrchu cynnwys o'r gwefannau hynny, mewn canlyniadau chwilio am ymholiadau sy'n ymwneud â phynciau o bwys cenedlaethol i'r Deyrnas Unedig. Mae'n bwysig nodi nad oeddem yn gallu asesu, ac nad oeddem ychwaith yn bwriadu asesu, a oedd amlygrwydd unrhyw ffynonellau sy'n gysylltiedig â gwladwriaeth mewn canlyniadau chwilio yn deillio o gamddefnyddio bwriadol gan y gwladwriaethau hynny neu a oeddent yn codi oherwydd bod algorithmau chwilio wedi penderfynu bod y cynnwys a gynhyrchwyd gan y safleoedd hynny yn berthnasol i ymholiad penodol. Ni wnaethom ychwaith asesu ansawdd cymharol unrhyw gyfryngau gwladwriaeth unigol. Rydym yn cydnabod bod ffynonellau gwybodaeth a gefnogir gan wladwriaeth yn bodoli ar sbectrwm eang o ran eu hawdurdodaeth a'u safonau newyddiadurol, ac nad yw cysylltiad â gwladwriaeth dramor o reidrwydd yn peri problemau ac na ddylai gwasanaethau chwilio ystyried bod cysylltiad o'r fath yn risg gynhenid. Yn fras, ni ddylid ystyried ein hymdrechion i ddeall amlygrwydd ffynonellau sy'n gysylltiedig â gwladwriaeth mewn canlyniadau chwilio fel ymgais i ddogfennu drwgweithredu, naill ai gan y ffynonellau eu hunain neu gan y gwasanaethau chwilio a ddaeth ar draws y ffynonellau hynny.

Ar ben hyn, er ein bod wedi ceisio dewis pynciau a oedd yn bwysig i fuddiannau'r DU yn hytrach na'r rheini a oedd yn ffafrio buddiannau unrhyw un llywodraeth dramor, roedd rhai o'r ymholiadau a ddewiswyd—yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â'r rhyfel yn erbyn Wcráin—yn fwy tebygol o fod yn ffocws negeseuon rhai gwledydd penodol. Felly, ni ddylid defnyddio canlyniadau'r astudiaeth hon fel pwyntiau data cymharol i awgrymu bod unrhyw un wladwriaeth yn fwy dylanwadol yng nghanlyniadau

[1] Gweler, er enghraifft, Chun, J. a Larrick, R. (2021) 'The Power of Rank Information.' *American Psychological Association*. Ar gael yn: [The Power of Rank Information (apa.org)] a Yang, S. a Ghose, A. (2010) 'Analyzing the relationship between organic and sponsored search advertising: Positive, negative, or zero interdependence?' *Marketing Science*. Ar gael yn: [Analyzing the Relationship Between Organic and Sponsored Search Advertising: Positive, Negative, or Zero Interdependence? on JSTOR].

[2] Yn ein hastudiaeth, fe wnaethom ddiffinio "tramor" fel unrhyw endid llywodraeth nad yw wedi'i leoli yn un o bedair gwlad gyfansoddol y Deyrnas Unedig a "cysylltiedig â'r wladwriaeth" fel gwefan sydd â chysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â llywodraeth dramor neu ddarparwr cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth. Gweler yr adran "Rhestr Termau" am ddisgrifiad manwl o bob term.

chwilio'r DU nag unrhyw un arall. Yn hytrach, nod y gwaith ymchwil hwn oedd cael gwell dealltwriaeth o sut a pha mor aml yr oedd cynnwys gwefannau sydd â chysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â gwladwriaethau tramor—yn bennaf cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth[3] ond hefyd gwefannau sydd â chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â llywodraethau tramor neu wasanaethau gwybodaeth tramor—yn codi mewn canlyniadau chwilio ym mhedair gwlad y DU.

Er ein bod yn cynnig nifer o enghreifftiau sy'n tynnu sylw at wendidau penodol a ddatgelwyd gan ein hymchwil, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar asesu risg bosibl ymyrraeth tramor drwy nodi'r mathau o newidynnau—o bwnc y chwiliad i'r iaith a ddefnyddir—a gynhyrchodd ganlyniadau chwilio'n rheolaidd o wefannau sy'n gysylltiedig â gwladwriaeth, heb asesu a yw cynnwys y canlyniadau chwilio hynny o bosibl yn anghyfreithlon o dan Drosedd Ymyrraeth Tramor newydd y DU sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Diogelwch Gwladol 2023.[4] Fodd bynnag, fe wnaethom roi sylw penodol i bresenoldeb cynnwys a gynhyrchir gan gyfryngau sydd ar hyn o bryd yn wynebu sancsiynau gan lywodraeth y DU, sef cyfryngau gwladwriaeth Rwsia yn sgil ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022.[5]

## Prif Ganfyddiadau

- Ar Google Search, Google News, Microsoft Bing a Bing News, roedd 23,756 o arsylwadau ar wefannau yr oeddem wedi penderfynu eu bod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gysylltiedig â gwladwriaeth dramor yn ystod y cyfnod astudio, gan gynrychioli 7.6% o'r holl ganlyniadau chwilio sy'n ymwneud â'r ymholiadau a aseswyd yn yr astudiaeth hon ar gynhyrchion chwilio Google a Microsoft. Roedd canlyniadau o wefannau'r llywodraeth yn fwy cyffredin, gyda chysylltiadau â chyfryngau a gefnogir gan y wladwriaeth yn cynrychioli dim ond 2.7% o'r holl ganlyniadau. Y cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth Qatar a gafodd y treiddiad mwyaf—bron yn gyfan gwbl oherwydd Al-Jazeera English—ac yna'r cyfryngau a gefnogir gan wladwriaethau Rwsia, Saudi Arabia a Belarws. Fel y nodwyd, nid yw hyn yn awgrymu unrhyw fwriad gan y gwladwriaethau hynny i gamddefnyddio canlyniadau chwilio, ac ni ddylid ystyried bod y cyfryngau sy'n gysylltiedig â'r gwladwriaethau hynny i gyd yr un peth, er gwaethaf eu cysylltiadau â llywodraethau tramor.
- Yandex, y gwasanaeth chwilio Rwsiaidd, a gynhyrchodd y nifer fwyaf o ganlyniadau o gyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth.[6] Daeth bron i 27% o'r holl ganlyniadau chwilio ar Yandex Search o gyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth, gyda 97% o'r canlyniadau hynny'n dod o gyfryngau a gefnogir gan y wladwriaeth yn Rwsia. O gymharu â hyn, roedd cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth dramor yn gyfrifol am 6% o'r canlyniadau ar gyfer yr ymholiadau a ddewiswyd ar Baidu Search, 4.2% ar Google News, 3.2% ar Bing News, 2.4% ar Google Search a 1.2% ar Microsoft Bing. Er nad yw'n syndod bod chwiliadau Rwsieg wedi creu mwy o gysylltiadau â gwefannau sy'n gysylltiedig â llywodraeth Rwsia na chwiliadau a wnaed yn Saesneg, mae'r

---

[3]Rydym yn defnyddio'r term "a gefnogir gan wladwriaeth" i gynnwys cyfryngau a gaiff eu rheoli a'u cipio gan wladwriaeth.  Cyfeiriwch at yr adran "Rhestr Termau" neu'r adran "Categoreiddio Ffynonellau" am ragor o fanylion.
[4] Legislation.gov.uk (2023) *Deddf Diogelwch Gwladol 2023*. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/32/part/1/crossheading/foreign-interference/enacted.
[5] Foreign, Commonwealth & Development Office et al. (2022) *Foreign secretary announces sanctions on Putin's propaganda.* Ar gael yn: Foreign Secretary announces sanctions on Putin's propaganda - GOV.UK (www.gov.uk).
[6]Fel y trafodwyd yn yr adrannau "Gwasanaeth Chwilio" a "Dewis Termau Chwilio", aethom ati i gyfieithu'r ymholiadau chwilio Saesneg a astudiwyd i'r Rwsieg cyn gwneud ymholiadau ar Yandex.

canfyddiad hwn yn enghraifft o'r amgylcheddau chwilio gwahanol y mae defnyddwyr yn y DU yn eu hwynebu yn dibynnu ar iaith yr ymholiad a'r gwasanaeth chwilio a ddefnyddir.

- I raddau helaeth, nid oedd y cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth Rwsia ac sy'n wynebu sancsiynau gan y DU yn bresennol mewn canlyniadau chwilio ar gynhyrchion chwilio Google a Microsoft. Er bod dros 1,100 o ganlyniadau chwilio (yn cynrychioli tua 0.37% o'r holl ganlyniadau) ar gynhyrchion chwilio Microsoft neu Google o ddarparwyr yr oeddem wedi'u categoreiddio fel cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth Rwsia, roedd y rhan fwyaf o'r canlyniadau hynny o ddarparwyr fel Tass, nad yw llywodraeth y DU yn eu sancsiynu.
- Er nad oedd llawer o barthau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyfryngau Rwsia ac sy'n wynebu sancsiynau gan y DU mewn canlyniadau chwilio ar gynhyrchion chwilio Google a Microsoft, ymddangosodd nifer sylweddol o'r cynnwys a gynhyrchwyd gan y darparwyr hynny mewn canlyniadau chwilio drwy ailbostio ar wefannau heb gysylltiad. Er enghraifft, yn ystod ein hastudiaeth, roedd cynnwys RT fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o ymddangos mewn canlyniadau chwilio ar wefannau heb gysylltiad â llywodraeth Rwsia nag ar RT ei hun. Er nad yw hyn yn awgrymu bod gwasanaethau chwilio'n cael eu hecsbloetio'n fwriadol, mae'n tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â thryloywder a heriau priodoli, fel deall o ble mae gwybodaeth yn dod, ac amgylcheddau gwybodaeth digidol.
- Nid RT oedd y ffynhonnell unigol fwyaf ar gyfer cynnwys a gynhyrchwyd gan RT yn ein set ddata, ond y Big News Network, dosbarthwr newyddion sydd â'i bencadlys yn Dubai gyda swyddfeydd yn Sydney. O'r 740 o arsylwadau ar eiddo'r Big News Network yn ein set ddata, roedd 724 yn cynnwys ailbostio erthyglau RT, a daeth dros 90% (25 o 27) o'r URLs unigryw o'r Big News Network yn ein set ddata o RT.com. Gwelsom sawl enghraifft hefyd, yn bennaf ar Bing News, o gynnwys RT a Sputnik a oedd wedi'u gwyngalchu drwy gyfryngau a gefnogir gan y wladwriaeth ac a gefnogir gan gynghreiriaid Rwsia, gan gynnwys darparwyr a ariennir gan lywodraethau Belarws, Venezuela, Syria ac Iran. Wrth ystyried cynnwys cyfryngau a gefnogir gan wladwriaeth Rwsia a geir ar barthau eraill, roedd chwiliadau ar Bing News tua 16 gwaith yn fwy tebygol o gynhyrchu canlyniadau o ffynonellau a gefnogir gan wladwriaeth Rwsia na chwiliadau ar Google News.
- Yn gyson ag ymchwil flaenorol, gwelsom fod gwahaniaethau o ran y sillafu, yr iaith a'r fframio a ddefnyddir mewn ymholiadau chwilio yn cael effaith enfawr ar ganlyniadau chwilio. Gan ddefnyddio sillafiad Rwsieg o brifddinas Wcráin (Kiev), er enghraifft, cafwyd deg gwaith yn fwy o ganlyniadau ar gynhyrchion chwilio Google a Microsoft o ffynonellau a gefnogir gan wladwriaeth na'r sillafiad Wcreineg (Kyiv). Ar Bing News, y Big News Network oedd y parth a welwyd fwyaf mewn canlyniadau chwilio ar gyfer "Kiev" yn ystod ein hastudiaeth. O ystyried bod yr holl ganlyniadau a gasglwyd ar y Big News Network a oedd yn ymwneud â chwiliadau am "Kiev" yn dod o RT, roedd hyn i bob pwrpas yn golygu bod defnyddwyr yn y DU a chwiliodd am Kiev yn ystod cyfnod yr astudiaeth yn dod ar draws mwy o gynnwys RT nag unrhyw ffynhonnell arall. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn golygu bod defnyddio "Kiev" yn ymgais fwriadol gan RT i ecsbloetio gwasanaethau chwilio, ond mae'n tynnu sylw at sut gall gwahanol fathau o gysyniadau tebyg mewn ymholiadau chwilio arwain pobl at wahanol ecosystemau gwybodaeth.